**GWARIANT CYFALAF A CHYLLIDO**

4. Gwariant cyfalaf yw pan mae'r Cyngor yn gwario arian ar asedau, megis eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn. Mewn llywodraeth leol mae hyn yn cynnwys gwario ar asedau sy'n eiddo i gyrff eraill, a rhoi benthyciadau a grantiau i gyrff eraill i'w galluogi nhw i brynu asedau. Mae gan y Cyngor ryddid cyfyngedig i bennu'r hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, ac mae rhai asedau gwerth isel yn cael eu trosglwyddo i refeniw yn ystod y flwyddyn. Asesir pob ased a chynllun yn ôl ei haeddiant ei hun, a chyfrifir amdanynt yn unol â hynny hefyd.

   - Ceir eglurhad pellach am bolisi'r Cyngor ar gyfalafu yn Nodiadau Polisi Datganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2020/21, gweler:

   https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Perfformiad-y-Cyngor/Datganiad-or-cyfrifon/Datganiad-or-Cyfrifon-2020.21..pdf

5. Yn 2022/23, mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £64m, fel a grynhoir isod:

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwir 2020/21 £m** | **Amcan 2021/22 £m** | **Cyllideb 2022/23 £m** | **Cyllideb 2023/24 £m** | **Cyllideb 2024/25 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cronfa Gyffredinol | 28.5 | 52.2 | 59.1 | 19.2 | 16.2 |
| Prydlesu Cronfa Gyffredinol * | 0.0 | 0.0 | 5.0 | 0.0 | 0.0 |
| **CYFANSWM** | **28.5** | **52.2** | **64.1** | **19.2** | **16.2** |

** Mae’r Gwariant Cyfalaf am 2022/23 yn cynnwys £5m oherwydd newid yn y dull cyfrifo am brydlesau.*

6. Mae prif brosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn 2022/23 yn cynnwys:
   - Cynlluniau /Strategaeth Tai - £16.1m
   - Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain - £14.9m
   - Atal Llifogydd Arfordirol - £7.0m
   - Cerbydau Adrannol - £4.7m
   - Unedau Diwydiannol - £2.9m
   - Cynlluniau Eiddo - £2.2m

7. **Llywodraethu**: Mae gan y Cyngor Strategaeth Asedau 10 mlynedd, sef cynllun o flaenoriaethau gwariant cyfalaf y Cyngor yn seiliedig ar anghenion yr adrannau. Mae'r strategaeth yn cynnwys cyfran heb ei chlustnodi. O'r gyfran hon, mae modd i adrannau wneud cais yn flynyddol am arian ar gyfer

